sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

# Adolygiad o'r Farchnad Terfynu Galwadau Symudol 2018-2021

Datganiad Drafft

Dyddiad Cyhoeddi: 23 Chwefror 2018

# Gair am y ddogfen hon

Gwasanaeth cyfanwerthol y mae darparwr gwasanaeth ffôn symudol yn ei gynnig i gysylltu cwsmer (h.y. derbynnydd galwadau) ar ei rwydwaith yw gwasanaeth terfynu galwadau symudol. Pan fydd darparwyr sefydlog neu symudol yn galluogi eu cwsmeriaid i ffonio rhif ffôn symudol yn y DU, maent yn talu ffi gyfanwerthol i'r darparwr symudol sy'n terfynu'r alwad. Cyfradd terfynu symudol yw'r enw a roddir ar y ffi hon. Mae cyfraddau terfynu symudol yn cael eu gosod fesul munud, ac maent yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd.

Gwnaethom gyhoeddi dogfen ymgynghori ar 27 Mehefin 2017 yn amlinellu ein cynigion ar gyfer rheoleiddio marchnadoedd terfynu galwadau symudol o fis Ebrill 2018 i fis Mawrth 2021. Dilynwyd hon gan ymgynghoriad pellach ar 17 Tachwedd 2017 (a dogfen ategol ar 24 Ionawr 2018) a oedd yn cynnwys rhestr wedi'i diweddaru o ddarparwyr roeddem wedi'u nodi dros dro fel rhai â phŵer sylweddol yn y farchnad. Rydym wedi ystyried pwyntiau a godwyd gan randdeiliaid mewn ymateb i'n hymgynghoriadau, a gwybodaeth rydym wedi'i chasglu ers yr ymgynghoriadau. Yn y ddogfen hon rydym yn egluro ein penderfyniad ynghylch sut y byddwn yn rheoleiddio'r gwasanaeth terfynu galwadau symudol y bydd pob darparwr gwasanaeth symudol sy'n weithredol yn y marchnadoedd perthnasol yn ei gynnig.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cael ei hysbysu o'r datganiad drafft hwn heddiw. Cyn gynted ag y bydd y broses hysbysu wedi cael ei chwblhau, byddwn yn cyhoeddi datganiad terfynol i ddod â'n penderfyniadau i rym.

# Cynnwys

## Adran

1. Crynodeb Gweithredol 1-6

# 1. Crynodeb Gweithredol

1.1 Mae gwasanaeth Terfynu Galwadau Symudol (MCT) yn wasanaeth cyfanwerthol y mae darparwr symudol yn ei gynnig i gysylltu galwad i gwsmer (h.y. derbynnydd yr alwad) ar ei rwydwaith. Pan fydd darparwyr sefydlog neu symudol yn galluogi eu cwsmeriaid i ffonio rhif ffôn symudol yn y DU, maent yn talu ffi gyfanwerthol i'r darparwr symudol sy'n terfynu'r alwad i'r derbynnydd. Y Gyfradd Terfynu Symudol (MTR) yw lefel y ffi hon. Mae'r cyfraddau terfynu symudol yn cael eu gosod fesul munud, ac maent yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd.

1.2 Pwrpas adolygiadau tebyg i hwn yw asesu'r gystadleuaeth o ran darparu gwasanaethau mewn marchnad benodol ac ystyried y dull rheoleiddio *ex ante* priodol, os oes un, y dylid ei ddefnyddio yn y farchnad hon i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed sy'n codi o bŵer yn y farchnad.

1.3 Daeth yr adolygiad diwethaf o'r farchnad MCT, a oedd yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2018, i ben ar 17 Mawrth 2015 ('Adolygiad MCT 2015'). Yn yr adolygiad hwnnw, canfu Ofcom bod gan 72 o ddarparwyr MCT bŵer sylweddol yn y farchnad (SMP) o ran terfynu.[1] Aethom ati i osod tair rhwymedigaeth ar bob darparwr oedd â phŵer sylweddol yn y farchnad, sef: rhwymedigaeth mynediad i rwydwaith, rhwymedigaeth tryloywder prisiau a rheolaeth ar ffioedd. Am y tro cyntaf, gosodwyd y rhain ar bob darparwr MCT oedd â phŵer sylweddol yn y farchnad, nid y pedwar darparwr symudol mwyaf yn unig.[2] Roeddem hefyd wedi gosod rhwymedigaeth dim gwahaniaethu gormodol ar y pedwar darparwr symudol mwyaf.

1.4 Ym mis Mehefin 2017, aethom ati i gyhoeddi ein cynigion ar gyfer rheoleiddio'r farchnad MCT yng nghyswllt y cyfnod rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2021 ("Ymgynghoriad Mehefin 2017"). Roeddem yn cynnig dynodi 80 marchnad ar wahân, bob un yn cyfateb i ddarparwr symudol oedd yn gallu pennu MTR ar gyfer galwadau i rifau symudol yn y DU yr oedd Ofcom wedi'u neilltuo iddynt. Roeddem yn cynnig gosod dwy rwymedigaeth ar bob un o'r 80 darparwr MCT a oedd wedi'u dynodi fel rhai â phŵer sylweddol yn y farchnad, sef: rhwymedigaeth mynediad i rwydwaith a rheolaeth ar ffioedd.

1.5 Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddwyd ymgynghoriad arall gennym ('Ymgynghoriad Tachwedd 2017) gyda rhestr fwy diweddar o ddarparwyr oedd â phŵer sylweddol yn y farchnad, ar ôl casglu gwybodaeth ar gyfer cwmnïau yr oedd Ofcom wedi neilltuo ystod o rifau symudol iddynt. Yn y ddogfen honno, roeddem wedi mireinio'r rhestr i gynnwys 79 o ddarparwyr MCT. Ar 24 Ionawr 2018 gwnaethom gyhoeddi hysbysiad statudol pellach yn

---

[1] Cafodd ein datganiad diweddaraf, sef "Terfynu galwadau llais symudol cyfanwerthol" ('Datganiad Terfynu Galwadau Symudol 2015) ei gyhoeddi ar 17 Mawrth 2015 ac mae ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol, ynghyd â'r cyfraddau MTR a reoleiddir ar hyn o bryd: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0029/76385/mct_final_statement.pdf

[2] Y pedwar darparwr symudol mwyaf yw EE, Hutchison 3G (H3G ), Telefónica a Vodafone. Mae'r darparwyr hyn i gyd yn gweithredu rhwydwaith symudol cenedlaethol cyflawn, gan gynnwys rhwydwaith mynediad radio a rhwydwaith craidd; mae ganddynt reolaeth annibynnol ar y sbectrwm, ac maent yn gweithredu mewn marchnadoedd cyfanwerthol ac adwerthol.

cynnig ychwanegu darparwr ychwanegol at y rhestr, gan godi'r cyfanswm i 80 unwaith eto. Yn dilyn y broses hysbysu, rydym wedi cadarnhau nad yw nifer o ddarparwyr bellach yn cynnig gwasanaethau terfynu yn y DU. Felly, mae nifer y darparwyr dynodedig yn is erbyn hyn, fel y nodir yn y blwch isod.

1.6 Mae'r datganiad hwn yn egluro ein penderfyniad ynghylch rheoleiddio'r farchnad terfynu galwadau symudol cyfanwerthol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2021.[3] Mae'r rhain hefyd wedi'u nodi yn y blwch isod.

**Y prif benderfyniadau**

**68 marchnad ar wahân ar gyfer MCT.** Mae pob marchnad yn cyfateb i ddarparwr sy'n gallu pennu cyfraddau terfynu ar gyfer galwadau i rifau symudol yn y DU a neilltuwyd gan Ofcom. Rydym wedi dynodi pob un o'r 68 darparwr sydd â phŵer sylweddol yn y farchnad yng nghyswllt y farchnad (gyfanwerthol) ar gyfer terfynu galwadau i'r rhifau y mae'n eu rheoli.

**Dwy set o rwymedigaethau rheoleiddio wedi'u gosod ar bob darparwr sydd â Phŵer Sylweddol ar y Farchnad (SMP).** Rydym wedi penderfynu gosod rhwymedigaeth mynediad i rwydwaith a rheolaeth ar ffioedd ar bob darparwr MCT sydd â phŵer sylweddol yn y farchnad.

**Un cap uchaf ar gyfer Cyfraddau Terfynu Symudol.** Mae'r cap ar MTR wedi'i seilio ar gost ychwanegol tymor hir MCT. O 1 Ebrill tan 31 Mawrth 2018, y cap a roddir ar MTR fydd 0.495 ceiniog y funud. Yna, o 1 Mehefin 2018 tan 31 Mawrth 2019, bydd hwn yn newid i 0.489 ceiniog y funud. Rydym yn rhagweld cap o 0.480 ceiniog y funud ar MTR rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, a chap o 0.471 ceiniog y funud rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021.

**Yr un cap ar gyfer pob MTR, gan gynnwys galwadau sy'n deillio o'r tu allan i Ardal Economaidd Ewrop (EEA).** Rydym wedi penderfynu y dylai'r un rheolaeth ar ffioedd MTR fod yn berthnasol i derfynu pob galwad i rifau symudol yn y DU, ni waeth o ble maent yn dod.

**Dileu dwy rwymedigaeth a osodwyd yn Adolygiad MCT 2015.** Rydym wedi penderfynu nad yw'r rhwymedigaeth tryloywder prisiau a osodwyd ar bob darparwr a'r rhwymedigaeth dim gwahaniaethu gormodol a osodwyd ar y pedwar darparwr symudol mwyaf bellach yn angenrheidiol nac yn gymesur.

## Ein ffordd o fynd ati yn yr adolygiad hwn

1.7 Rydym wedi ystyried y dull priodol i'w ddefnyddio yng nghyswllt yr adolygiad hwn a'r rhwymedigaethau y byddwn yn eu gosod, o gofio'r amgylchiadau presennol, a'r rhai sy'n debygol o fod yn berthnasol yn ystod y cyfnod sy'n cael sylw yn yr adolygiad. Yn ein Hadolygiad o Gyfathrebiadau Digidol rydym wedi egluro, er y byddwn ni'n ceisio dod o hyd i gyfleoedd i symleiddio'r broses o reoleiddio, gan gynnwys yng nghyswllt terfynu galwadau, roeddem yn teimlo ei bod yn debygol y byddai systemau diogelu rhag ffioedd terfynu uchel yn parhau i fod yn angenrheidiol.[4] Ein nod yn yr adolygiad hwn oedd sicrhau

[3] Dyma ein datganiad drafft ar gyfer hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd. O hyn ymlaen, bydd cyfeiriadau at 'datganiad' yn golygu 'datganiad drafft' oni nodir yn wahanol.
[4] Paragraff 8.5 yn Natganiad Ofcom, "Casgliadau cychwynnol yr Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol", https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0016/50416/dcr-statement.pdf.

bod y canlyniad yn diogelu buddiannau defnyddwyr heb roi dim mwy o faich rheoleiddio nag oedd yn angenrheidiol.

1.8 Ers i ni ddechrau rheoleiddio'r farchnad/marchnadoedd yng nghyswllt MCT rydym wedi canfod yn gyson bod gan ddarparwyr symudol bŵer yn y farchnad o ran darparu gwasanaethau terfynu o'r fath. Y rheswm pennaf am hyn yw pan fydd galwad yn cael ei gwneud i rwydwaith symudol, does gan y galwr, neu'r darparwr gwreiddiol ar ran y cwsmer sy'n gwneud yr alwad, ddim dewis arall ond prynu gwasanaethau terfynu gan y darparwr symudol sy'n terfynu'r alwad honno, a thalu'r gyfradd terfynu galwadau symudol sydd wedi'i gosod ganddo. Os nad ydynt yn cael eu rheoleiddio, mae gan ddarparwyr symudol gymhellion cryf i osod ffioedd cyfanwerthol uchel iawn (h.y. MTR). Efallai y bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at gynnydd sylweddol ym mhrisiau adwerthol galwadau i rifau symudol ( o wasanaethau sefydlog a symudol) o ganlyniad i drosglwyddo ffioedd yn uniongyrchol o'r ffi gyfanwerthol uwch neu oherwydd ystumio cystadleuol sydd wedi'i greu gan gyfraddau terfynu galwadau symudol gormodol.

1.9 Roedd cyfraddau terfynu galwadau symudol yn gymharol uchel yn y gorffennol. Ym 1998, roedd terfynu galwad llais oedd yn para munud ar rwydwaith symudol yn costio mwy na 13 ceiniog y funud ar gyfartaledd.[5] Yn sgil ein hymyrraeth reoleiddiol ni a'r gostyngiadau yng nghostau'r ddarpariaeth, mae cyfraddau MTR wedi bod yn gostwng yn raddol, ac wedi gostwng i 0.5 ceiniog y funud erbyn heddiw – sy'n adlewyrchu cost ychwanegol amcangyfrifedig terfynu galwad gyda thechnoleg heddiw. Yn y cyfamser, mae prisiau adwerthol yng nghyswllt galwadau llais symudol wedi esblygu fel bod tariffau misol fel arfer yn cynnwys nifer fawr, neu nifer ddiderfyn, o funudau galwadau llais erbyn hyn. Yn aml, nid yw defnyddwyr yn y DU yn ymwybodol o'r ffi gyfanwerthol sy'n cael ei thalu gan eu darparwr i derfynu galwadau i'w ffôn symudol.

Mae gostyngiadau MTR wedi'u cyfuno â gostyngiadau yn nifer y galwadau o rwydweithiau sefydlog i symudol yn golygu bod gwerth y farchnad terfynu galwadau symudol yn llai i ddarparwyr heddiw nag ar adeg ein hadolygiadau blaenorol. Yn 2016-17, roedd cyfanswm y refeniw o MCT yn y DU tua £350m. Mae hyn yn gostwng i oddeutu £85 miliwn os nad ydym yn cynnwys galwadau symudol i symudol (h.y. os ydym ond yn cynnwys prisiau terfynu "net").[6] O ystyried bod cyfanswm y refeniw adwerthol symudol yn y DU yn £15.3 biliwn yn 2016, mae prisiau terfynu net erbyn hyn yn atebol am gyfran fechan o gyfanswm refeniw darparwyr symudol (mae prisiau terfynu net yn cynrychioli tua 0.5% o refeniw adwerthol symudol y DU).[7] 1.1

1.10 Mae newid wedi bod hefyd o ran y galw ymysg defnyddwyr. Fwyfwy'r dyddiau hyn, mae defnyddwyr yn defnyddio rhwydweithiau symudol at ddibenion cysylltedd data: yn y

---

[5] Tua 19.5 ceiniog y funud yn ôl prisiau 2018.

[6] Ceir y refeniw terfynu drwy ystyried meintiau terfynu crynswth a net o 68.79 a 17.19 biliwn o funudau, yn y drefn honno, a'r MTR o 0.503 ceiniog y funud oedd yn berthnasol yn 2016-17. Mae'r meintiau'n cyfeirio at y pedwar darparwr symudol mwyaf ac yn cynnwys galwadau ar ran, neu ar gyfer, gweithredwyr rhith rwydweithiau symudol neu drydydd partion eraill.

[7] Mae gwybodaeth am refeniw adwerthol ar gael yn nhablau data'r farchnad telegyfathrebiadau gan Ofcom Q4 2017, 27 Ebrill 2017, https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0014/101408/telecoms-data-update-q4-2016.pdf

blynyddoedd diwethaf, gwelwyd twf heb ei debyg o'r blaen o safbwynt defnyddio data symudol. Rhwng 2011 a 2016, cynyddodd y defnydd o ddata symudol bob mis o 0.1 GB i 1.3 GB fesul cyswllt, ar gyfartaledd. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 1200%. Mewn gwrthgyferbyniad i hyn, dim ond cynnydd o 142 i 158 munud fesul tanysgrifiad a fu yn nifer y munudau o alwadau symudol allan fesul mis, ar gyfartaledd. Mae hyn yn cynrychioli twf o oddeutu 11% dros yr un cyfnod.[8] Mae hyn yn bennaf wedi'i sbarduno gan gynnydd yn nhreiddiad ffonau clyfar a bod mwy o dechnoleg 4G ar gael, sy'n darparu profiad gwell i ddefnyddwyr sy'n defnyddio gwasanaethau data.

1.11 O gofio'r ffocws cynyddol ar wasanaethau data mewn cynigion adwerthol, a pha mor effeithiol y bu rheoleiddio MTR o'r blaen yng nghyswllt gwasanaethau llais adwerthol (e.e. gyda lwfansau galwadau cynyddol a thwf mewn galwadau heb fod ar y rhwydwaith), rydym wedi manteisio ar y cyfle yn yr adolygiad hwn i symleiddio ein dull rheoleiddio a'r rhwymedigaethau y byddwn yn eu rhoi ar waith. Rydym wedi defnyddio dull ysgafnach pan fo'n briodol gwneud hynny ac wedi cymryd camau i hybu cystadleuaeth effeithiol ac i ddiogelu defnyddwyr pan fo angen.

1.12 Mae nifer o faterion sylfaenol sy'n rhan o reoleiddio terfynau galwadau symudol, megis y safon gostau i'w defnyddio o ran rheolaeth ar ffioedd yng nghyswllt MTR, wedi cael eu hystyried yn fanwl mewn adolygiadau olynol yn y DU ac yn Ewrop ac mae'r rhain yn fwy sefydlog erbyn hyn.

1.13 Hefyd, yn y tair blynedd nesaf, nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw fuddsoddiadau rhwydwaith sylweddol na gosod cenhedlaeth newydd o dechnoleg symudol (megis 5G) yn cael effaith sylweddol ar farchnadoedd terfynu galwadau symudol.[9] Mae hyn yn wahanol i adolygiad terfynu galwadau symudol 2015, pan oedd ein dadansoddiad yn pwyso a mesur defnyddio rhwydweithiau 4G am y tro cyntaf a'r tueddiad yn y diwydiant i rannu rhwydweithiau.

1.14 Mae hyn yn golygu ein bod wedi gallu parhau i ddefnyddio'r model a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r cap ar MTR yn Adolygiad MCT 2015, sydd â'r gallu i roi amcangyfrif o gostau ar gyfer y cyfnod adolygu 2018-2021. Rydym hefyd wedi ystyried a yw'r holl rwymedigaethau a osodwyd yn yr adolygiad blaenorol yn parhau i fod yn briodol ac yn gymesur, neu a oes lle i'w dileu neu eu symleiddio. Rydym wedi penderfynu dileu dau ohonynt a gosod rhwymedigaeth mynediad i rwydwaith a rheolaeth ar ffioedd yn unig.

## Ein penderfyniadau ynghylch rheoleiddio tan 31 Mawrth 2021

1.15 Wedi dwys ystyried y datblygiadau diweddaraf yn y farchnad ac ymatebion rhanddeiliaid i Ymgynghoriad Mehefin 2017, yn y ddogfen hon, rydym yn egluro ein penderfyniad i

[8] Gweler Adroddiad Ofcom ar y Farchnad Gyfathrebu 2017 (tudalennau 151-153), https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0017/105074/cmr-2017-uk.pdf.

[9] 5G yw'r term sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r genhedlaeth nesaf o dechnolegau di-wifr sydd y tu hwnt i 4G. Mae disgwyl i 5G ddarparu cyfraddau data cyflymach, a phrofiad gwell i ddefnyddwyr. Mae safonau technegol yn dal i gael eu datblygu ac maent yn debygol o gynnwys esblygiad o dechnolegau di-wifr presennol a rhai newydd.

ddiffinio'r marchnadoedd yn yr un ffordd ag y gwnaethom yn ein hadolygiadau blaenorol. Ar sail hyn, rydym wedi diffinio 68 marchnad ar wahân, bob un yn cyfateb i ddarparwr symudol sy'n gallu pennu cyfradd terfynu ar gyfer galwadau i rifau symudol yn y DU y mae Ofcom wedi'u neilltuo iddynt. [10] Rydym o'r farn nad oes unrhyw ddewisiadau eraill o ran terfynu galwadau i rifau symudol sy'n ddigon agos ati i ni ehangu'r diffiniad o'r farchnad, ac nid oes rhai''n debygol o ddod i'r amlwg dros y cyfnod sydd dan sylw yn yr adolygiad hwn. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, nad yw galwadau llais sy'n cael eu terfynu drwy ddefnyddio gwasanaethau Dros y Rhyngrwyd (OTT) sydd ddim yn defnyddio ystodau rhifau symudol, er enghraifft FaceTime, Skype neu WhatsApp, yn rhan o'r marchnadoedd perthnasol.

1.16 Rydym wedi dod i'r casgliad bod gan bob darparwr sydd â rhifau symudol yn y DU bŵer sylweddol yn y farchnad yng nghyswllt y farchnad (gyfanwerthol) ar gyfer terfynu galwadau i'r rhifau y mae'n eu rheoli. Drwy ddiffinio'r farchnad ar sail ystodau rhifau fel hyn, rydym yn adlewyrchu'r ffaith bod rheolaeth dros yr ystod rhifau yn darparu'r mecanwaith y gall pob darparwr ei ddefnyddio i bennu pris ar gyfer terfynu'r galwadau hyn neu (o bosib) wrthod caniatáu i ddarparwyr eraill gysylltu galwadau â'r rhifau hyn. Wrth ddefnyddio'r dull hwn, rydym yn dynodi 68 darparwr symudol sydd â phŵer sylweddol ar y farchnad. Mae'r darparwyr hyn wedi'u rhestru yn Atodiad 12.

1.17 Byddwn yn rheoleiddio pob darparwr sydd â phŵer sylweddol yn y farchnad drwy osod dwy rwymedigaeth:

i) *Rhwymedigaeth mynediad*: rhwymedigaeth i ddarparu mynediad i rwydwaith yn ôl telerau ac amodau teg a rhesymol;

ii) *Rheolaeth ar ffioedd* : un cap uchaf ar gyfraddau terfynu symudol a fydd yn seiliedig ar gost ychwanegol tymor hir terfynu galwadau symudol. Mae'r lefelau wedi cael eu crynhoi yn y tabl isod.

**Tabl 1: Costau (ceiniog y funud) a chapiau terfynol ar gyfer Cyfraddau Terfynu Symudol, a gwerthoedd X**

| | O 1 Ebrill 2017 | O 1 Ebrill 2018 | O 1 Mehefin 2018 | O 1 Ebrill 2019 | O 1 Ebrill 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| MTR (nominal) [11] | 0.495 | 0.495 | 0.489 | 0.480 | 0.471 |
| Gwerth X yn y fformiwla CPI-X | amh | amh | amh | CPI-4.1% | CPI-3.7% |

*Ffynhonnell: Model terfynu galwadau symudol 2018.*

[10] Caiff rhifau symudol yn y DU eu diffinio, at ddibenion yr adolygiad hwn, fel rhifau yn y fformat 07xxx xxx xxx ac yn dechrau â 071 i 075 a 077 i 079.

[11] Nodyn: mae'r cyfraddau nominal a fydd yn berthnasol o 1 Ebrill 2019 ac 1 Ebrill 2020 yn rhagolygon.

1.18 Rydym wedi pennu cap nominal o 0.489 ceiniog y funud ar MTR o 1 Mehefin 2018 (a fydd yn gostwng o 0.495 ceiniog y funud yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mai 2018) ac rydym yn rhagweld y bydd cap o 0.480 ceiniog y funud yn berthnasol o 1 Ebrill 2019, a chap o 0.471 ceiniog y funud o 1 Ebrill 2020. Bydd y gwir gapiau nominal ar MTR yn dibynnu ar chwyddiant o ran addasu'r prisiau fel y nodwyd yn rhes isaf Tabl 1 uchod. Byddwn yn cyhoeddi'r cap nominal ar MTR ar gyfer pob cyfnod rheoli o ddau fis cyn i'r cap ddod i rym (h.y. cyhoeddi erbyn 12 Chwefror bob blwyddyn).

1.19 Rydym yn caniatáu cyfnod pontio rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mai 2018 er mwyn rhoi cyfle i'r newidiadau perthnasol gael eu gwneud ac er mwyn rhoi gwybod i ddarparwyr telegyfathrebiadau eraill amdanynt. Yn ystod y cyfnod hwn rydym wedi pennu cap nominal o 0.495 ceiniog y funud ar MTR, sy'n cyfateb i lefel y cap roeddem wedi'i bennu yng nghyswllt y rheolaeth blaenorol ar ffioedd ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018.

1.20 Rydym wedi penderfynu y bydd y rheolaeth ffioedd hwn yn berthnasol i holl ddarparwyr MCT sydd â phŵer sylweddol yn y farchnad yng nghyswllt pob galwad i'w rhifau symudol.

1.21 Rydym wedi ystyried yn ofalus a ddylai'r un rhwymedigaeth o ran pris ar gyfer MCT fod yn berthnasol i alwadau sy'n deillio o'r tu allan i Ardal Economaidd Ewrop ('galwadau heb fod yn rhai EEA'). Rydym wedi ystyried y dadleuon o blaid ac yn erbyn rheoleiddio gwahaniaethol, gan gynnwys y goblygiadau ymarferol. Yn ein barn ni, mae'r posibilrwydd y byddai rheoleiddio gwahaniaethol yng nghyswllt MCT ar gyfer galwadau sy'n deillio o dramor (ac yn arbennig o wledydd heb fod yn rhai EEA) yn dod â budd o bwys i'r defnyddiwr yn gyfyngedig. Ein hasesiad ni o'r mater yw mai'r canlyniad mwyaf tebygol i reoleiddio gwahaniaethol fyddai cyfraddau terfynu uchel cyfatebol ac, ar ôl pwyso a mesur, byddai'r canlyniad yn debygol o fod er anfantais i ddefnyddwyr. Gallai rheoleiddio gwahaniaethol arwain at faich gweinyddol sylweddol ar y diwydiant ac ar Ofcom, a byddai'n ychwanegu at gymhlethdod y marchnadoedd rydym yn ceisio symleiddio rheoleiddio ynddynt. Felly, rydym wedi penderfynu y dylai'r un gyfradd reoledig fod yn berthnasol i'r holl alwadau i rifau symudol yn y DU, ni waeth o le mae'r alwad yn dod.

1.22

1.23 Rydym hefyd wedi ystyried a yw'n parhau i fod yn briodol gosod rhwymedigaeth dim gwahaniaethu gormodol ar y pedwar darparwr symudol mwyaf a gosod rhwymedigaethau prisiau tryloyw cyffredinol ar bob darparwr sydd â phŵer sylweddol yn y farchnad. Rydym wedi penderfynu nad oes angen y naill na'r llall.

1.24 Yn ein barn rheoleiddiol ni, bydd y rhwymedigaethau rydym yn eu rhoi ar waith yn hybu cystadleuaeth effeithiol ac yn hyrwyddo buddiannau defnyddwyr, yn unol â'n dyletswyddau statudol.

1.25 Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cael ei hysbysu o'r datganiad drafft hwn heddiw. Cyn gynted ag y byddwn wedi cwblhau'r broses hysbysu hon, ac wedi ystyried unrhyw sylwadau y bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn eu gwneud yn llawn, byddwn yn cyhoeddi datganiad terfynol er mwyn dod â'n penderfyniadau i rym.